**CYPE(6)-16-23 - Papur i'w nodi 5**

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

–

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
SeneddTai/SeneddTai
0300 200 6565

–

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

18 Mai 2023

Annwyl Lywydd,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes, ar 25 Ebrill, wedi cytuno i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon (y "Memorandwm"), gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mehefin. Yn dilyn hynny, cyfeiriwyd y Memorandwm hefyd at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Cafodd y Memorandwm ei ystyried gennym yn ein cyfarfod ar 11 Mai. Mae'r Memorandwm yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 19 ac 20 gan eu bod yn ymwneud â mater datganoledig gofal cymdeithasol, nad yw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Gallai'r cymalau hyn osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Os caiff ei basio, byddai'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Cartref ddarparu neu drefnu ar gyfer darparu llety i blant ar eu pen eu hunain sy'n bodloni amodau penodol o dan y Bil, ac i drosglwyddo'r plant hynny o lety'r Swyddfa Gartref i ofal awdurdodau lleol, ac i'r gwrthwyneb. Mae Cymal 19 yn galluogi ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru heb fod angen cydsyniad y Senedd.

Trafodwyd a ddylid adrodd ar y Memorandwm a phenderfynwyd yn erbyn gwneud hynny, yn bennaf oherwydd bod darpariaethau'r Bil y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor. Er bod y Bil yn galluogi ymestyn darpariaethau i Gymru a thrwy hynny, gallent osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byddai'n afresymol i'r Pwyllgor ystyried pob Bil yn y DU neu'r Senedd sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol Cymru, neu'n trosglwyddo pwerau iddynt.

Yn ogystal, yn ystod ein trafodaethau, cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sydd hefyd yn aelod o'n Pwyllgor, ei bod yn debygol iawn y byddai ei phwyllgor hi yn ymgymryd â

gwaith ar y Memorandwm. Rydym hefyd yn deall y bydd yn cael ei ystyried gan ddau bwyllgor arall: y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Ar y sail honno, ac am y rhesymau eraill a amlinellir uchod, rydym wedi penderfynu peidio ag adrodd ar y Memorandwm hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y pwyllgorau eraill y cyfeiriwyd at y Memorandwm atynt er gwybodaeth.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.